# Gwybodaeth am... Ystlumod

Mae dros 950 math o ystlumod.

Mae ystlumod yn gallu hedfan.

Mae gan ystlumod ffwr neu gwallt ar eu cyrff.



## Ffeithiau Mawr

Mae ystlumod yn cysgu yn ystod y dydd ac yn effro yn ystod y nos.

Mae ystlumod yn gallu byw tan eu bod nhw'n 30 mlwydd oed.

Mae ystlumod yn cysgu ben i waered er mwyn hedfan i ffwrdd yn gyflym os oes rhaid.



## Ble Mae Ystlumod yn Byw?

Mae ystlumod yn byw mewn clwydi.

Mae ystlumod yn byw mewn lle cynnes a thywyll, fel mewn coed neu ogofâu.

## Beth Mae Ystlumod yn Bwyta?

Mae ystlumod ym Mhrydain yn hoffi bwyta trychfilod.

Mae nhw'n dal y trychfilod ac yn eu bwyta nhw yn yr awyr.

Mae ystlumod eraill yn bwyta ffrwythau, blodau, pysgod, brogaod, gwaed ac ystlumod eraill hyd yn oed!

# Ystlumod **Cwestiynau**

1. Faint o wahanol fathau o ystlumod sydd yn y byd?


2. Beth mae ystlumod yn gwneud yn ystod y dydd?

3. I ba oed y mae ystlumod yn gallu byw?

4. Pam fod ystlumod yn cysgu ben i waered?

5. Ble mae ystlumod yn byw?

6. Beth mae ystlumod ym Mhrydain yn bwyta?



# Ystlumod **Atebion**

1. Faint o wahanol fathau o ystlumod sydd yn y byd?

   **Mae dros 950 math o ystlumod.**

2. Beth mae ystlumod yn gwneud yn ystod y dydd?

   **Mae ystlumod yn cysgu yn ystod y dydd.**

3. I ba oed y mae ystlumod yn gallu byw?

   **Mae ystlumod gallu byw tan eu bod nhw'n 30 mlwydd oed.**

4. Pam fod ystlumod yn cysgu ben i waered?

   **Mae ystlumod yn cysgu ben i waered er mwyn hedfan i ffwrdd yn gyflym os oes rhaid neu Mae ystlumod yn gallu gweld a chlywed yn dda wrth fod ben i waered.**

5. Ble mae ystlumod yn byw?

   **Mae ystlumod yn byw mewn clwydi neu mewn lle cynnes a thywyll fel coed neu ogofau.**

6. Beth mae ystlumod ym Mhrydain yn bwyta?

   **Mae ystlumod yn bwyta trychfilod.**